**Dyddiad:** Dydd Mercher, 3 Gorffennaf 2002

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3 & 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl:** Y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd

## Pwrpas

1. Darparu gwybodaeth ar sut i ddefnyddio'r Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd.

## Crynodeb

2. Mae'r papur hwn yn ymateb i bwynt gweithredu o'r cyfarfod diwethaf. Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor am bapur i'w nodi gyda gwerthusiad dros dro o'r Gronfa a rhestr o'r prosiectau a gefnogir. Ar hyn o bryd, mae'r Gronfa, a gafodd ei lansio yn 2001, yn cefnogi 67 o brosiectau ledled Cymru. Mae mwyafrif helaeth y prosiectau yn para 3 blynedd ac felly, gydag amser y bydd eu heffaith yn dod i'r amlwg. Mae'r gwerthusiad dros dro hwn, felly, yn canolbwyntio ar nifer y prosiectau sydd wedi'u sefydlu yn erbyn y targed, a natur y prosiectau a gefnogir yn erbyn y meini prawf a bennwyd o ran ariannu.

## Y Cefndir

3. Cafodd y Gronfa ei sefydlu gan Lywodraeth y Cynulliad er mwyn ysgogi a chefnogi camau newydd sy'n cael eu cymryd yn lleol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a'r ffactorau sy'n cyfrannu at hyn, gan gynnwys annhegwch o ran mynediad i wasanaethau iechyd. Lansiwyd y Gronfa ym mis Chwefror 2001, a'i phrif flaenoriaeth oedd mynd i'r afael â chlefyd coronaidd y galon. Nodwyd manylion y Gronfa a'r meini prawf a bennwyd ar gyfer ei defnyddio yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru WHC (2001) 06.

4. Dyma oedd y meini prawf craidd a bennwyd ar gyfer y Gronfa:

- Bod timau gofal sylfaenol/cymunedol yn cymryd rhan er mwyn gwella/ehangu eu rôl o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.
- Camau sy'n atgyfnerthu partneriaeth a chydweithio rhwng sefydliadau o fewn y sectorau iechyd, llywodraeth leol a/neu wirfoddol.
- Camau sydd wedi'u targedu i helpu cymunedau difreintiedig a/neu grwpiau sydd dan anfantais o fewn y boblogaeth.

- Camau sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a'r ffactorau sy'n eu hachosi, camau sy'n cyfrannu at y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Clefyd Coronaidd y Galon, a chamau sy'n gyson â'r dystiolaeth sydd ar gael.
- Cynllun prosiect cadarn, a chost o ryw £50,000 - £100,000 fel rheol.

5. Gan gydnabod yr angen i gynnal yr ymdrech dros gyfnod o amser, roedd cynllun y Gronfa yn caniatáu prosiectau sy'n para hyd at 3 blynedd. Er bod partneriaeth yn elfen bwysig, gallai unrhyw sefydliad o'r GIG, llywodraeth leol neu'r sector gwirfoddol arwain prosiect.

6. Cynlluniwyd proses gais syml ar gyfer y Gronfa gyda'r nod o sicrhau cyn lleied o waith â phosibl wrth gyflwyno ceisiadau, tra ar yr un pryd yn darparu digon o wybodaeth i asesu cynigion. Roedd yr ymateb yn galonogol iawn o ran nifer y cynigion a dderbyniwyd - 112 - a'u hansawdd. Roedd yn dangos yr ymrwymiad sy'n bodoli ledled Cymru i weithredu ar y cyd er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gostwng lefel clefyd y galon.

7. Mae gan y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd gyllideb o £6 miliwn ar gyfer 2002-03. Mae £5 miliwn o hwn ar gyfer mynd i'r afael â chlefyd coronaidd y galon. O ystyried cynlluniau gwariant cyfredol y 67 prosiect a gefnogir, mae cyllideb eleni wedi'i hymrwymo'n llwyr. Mae'r £1 miliwn arall, sy'n cael ei ddefnyddio ar wahân, ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd deintyddol. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl ehangu mentrau deintyddol sy'n bodoli eisoes a datblygu rhaglen selio holltau i blant sydd â dannedd drwg iawn.

**Dethol prosiectau**

8. Aseswyd pob cynnig yn erbyn y meini prawf gan o leiaf ddau berson ac fe'u rhoddwyd yn eu trefn. Sefydlwyd Grwp Ymgynghorol o swyddogion a chynrychiolwyr o'r GIG, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol. Rhoddodd y Grwp ystyriaeth i ganlyniadau'r broses asesu gan argymell prosiectau i'w cefnogi.

9. Roedd nifer fawr y cynigion yn golygu bod y broses asesu wedi cymryd yn hwy na'r disgwyl. Cyhoeddwyd yr haen gyntaf o 54 prosiect ym mis Gorffennaf 2001. Cyhoeddwyd ail haen o 13 prosiect - i ddechrau o fis Ebrill 2002 - ym mis Ionawr 2002.

**Gwerthusiad dros dro**

10. Mae nod y Gronfa - sef ysgogi a chefnogi camau newydd yn lleol er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd - wedi'i chyflawni. Ar hyn o bryd mae'r Gronfa yn cefnogi 67 prosiect, sydd ymhell y tu hwnt i'r targed gwreiddiol, sef 20-30 prosiect. Mae pob prosiect yn weithredol ond mae rhai wedi bod yn araf yn sgil anawsterau recriwtio.

11. O gofio bod y rhan fwyaf o brosiectau (91%) yn para 3 blynedd, bydd yr effaith yn cymryd amser i ddod i'r amlwg. Mae'r gwerthusiad dros dro hwn, felly, yn canolbwyntio ar asesu'r portffolio prosiectau

a gefnogir yn erbyn y meini prawf a bennwyd ar gyfer y Gronfa. Casglwyd y data o ddadansoddiad o gofnodion gweinyddol pob prosiect.

12. Mae pob prosiect yn seiliedig ar bartneriaeth. Mae pob prosiect yn ymwneud â gofal sylfaenol drwy feddygfeydd unigol neu Grwpiau Iechyd Lleol. Mae 96% o brosiectau yn cynnwys Grwpiau Iechyd Lleol, sy'n gosod prosiectau'r Gronfa wrth wraidd y Byrddau Iechyd Lleol newydd. Bydd hyn yn help i sicrhau bod atal afiechyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn gymaint o flaenoriaeth â gwasanaethau iechyd effeithiol ac effeithlon.

13. Pan oedd y prosiectau'n cael eu cymeradwyo, roedd awdurdodau lleol yn bartneriaid mewn 52% o brosiectau a mudiadau'r sector gwirfoddol yn bartneriaid mewn 37%. Roedd Ymddiriedolaethau'r GIG yn bartneriaid mewn 82% o brosiectau, sy'n help i ddatblygu eu rôl o fewn eu cymuned leol. Disgwylir i waith partneriaeth gynyddu ymhellach wrth i brosiectau ddatblygu ac wrth i gysylltiadau gael eu gwneud â gwaith datblygu cymunedol ehangach. Mae Cynghreiriau Iechyd Lleol yn bartneriaid mewn 40% o brosiectau. Grwpiau Iechyd Lleol yw arweinwyr prosiectau gan mwyaf (62%), ynghyd ag Ymddiriedolaethau'r GIG (22%), Awdurdodau Iechyd - gwasanaethau iechyd cyhoeddus/hybu iechyd (4%), meddygfeydd meddygon teulu (6%) ac awdurdodau lleol (6%).

14. Mae pob prosiect a gefnogir gan y Gronfa yn cyfrannu at weithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Clefyd Coronaidd y Galon. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi gwaith prosiectau ar draws y Fframwaith.

**Tabl 1: Prosiectau'r Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd - eu cyfraniad i Safonau'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Clefyd Coronaidd y Galon**

| | % y prosiectau |
|---|---|
| Safon 1: Camau i leihau ffactorau risg clefyd coronaidd y galon | 61 |
| Safon 2: Camau gofal sylfaenol i nodi'r rheini sydd mewn perygl er mwyn eu hasesu/trin | 55 |
| Safon 3: Gofal o safon uchel i bawb sydd â hanes aciwt o glefyd coronaidd y galon | 13 |
| Safon 4: Nodi a thrin y rheini y mae eu calonnau'n methu | 3 |
| Safon 5: Nodi a thrin y rheini sy'n dioddef o ffibriliad atrïaidd | -- |

15. Mae rhai prosiectau yn cyfrannu i fwy nag un Safon drwy, er enghraifft, gyfuno sgrinio â chamau mwy cyffredinol o fewn y gymuned i helpu pobl i wella eu hiechyd. Disgwylir i hyn gynyddu ymhellach wrth i brosiectau ddatblygu.

16. Ceir tipyn o gysylltiad rhwng y Gronfa a Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Mae o leiaf un o brosiectau'r Gronfa yn gweithredu yn holl ardaloedd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, gydag ambell eithriad. Mae rhai o brosiectau'r Gronfa yn canolbwyntio ar Wardiau penodol neu glystyrau o Wardiau tra bo eraill yn ymestyn dros ardaloedd Grwpiau Iechyd Lleol neu ardaloedd dalgylch ysbytai.

17. Aed ati mewn ffordd ragweithiol i sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu creu rhwng y Gronfa a Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Gofynnwyd i bob prosiect feithrin cysylltiadau â Rhoi Cymunedau'n Gyntaf o fewn eu hardal ac mae arweinwyr prosiectau wedi cael enwau cyswllt Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Yn yr un modd, mae pob un o gyd-drefnwyr Rhoi Cymunedau'n Gyntaf wedi cael rhestr o brosiectau'r Gronfa. O gofio natur y prosiectau a gefnogir gan y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd - a rôl flaenllaw gwasanaethau iechyd lleol - bydd y Gronfa yn helpu i ddatblygu elfen iechyd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

18. Mae cost prosiectau'n amrywio. Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau (55%) yn perthyn i'r ystod £50,000 - £100,000 (cost blwyddyn gyfan) tra bo'r gweddill yn cael eu rhannu rhwng grantiau o lai na £50,000 (21%) a grantiau o fwy na £100,000 (24%). Un o nodau'r Gronfa oedd cefnogi camau sy'n diwallu anghenion a nodwyd yn lleol a chymhwyswyd y meini prawf ariannu yn hyblyg, yn unol â hynny.

**Gwerthuso**

19. Mae'n ofynnol i arweinwyr prosiectau gynnwys yr elfen werthuso fel rhan hanfodol o'r prosiect er mwyn dangos effeithiolrwydd cam a gymerwyd. Mae trefniadau wedi'u gwneud i brosiectau allu cael cyngor a chefnogaeth wrth werthuso drwy Unedau Cymorth Rhanbarthol y Swyddfa Ymchwil a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (WORD). Mae'r trefniadau ar gyfer gwerthuso'r Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd dros 3 blynedd y rhaglen ar y gweill.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Swyddog Cyswllt:Ceri Breeze, Is-adran Strategaeth Iechyd y Cyhoedd, 029 2082 3214